COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 15 RHAGFYR 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | DK Edwards | J Gebbie |
| RM Granville | CA Green | DG Howells | RM James |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | A Williams | AJ Williams |
| HM Williams | JE Williams | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, T Giffard, M Hughes, A Hussain, JH Tildesley MBE a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

607. DATGANIADAU O FUDDIANT

Cynghorydd Alex Williams – Buddiant personol a buddiant sy’n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda, sef ei fod yn byw mewn eiddo sy'n wynebu ffordd heb ei mabwysiadu. Gadawodd y Cynghorydd Williams y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Cynghorydd R Stirman – Buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, sef ei bod yn byw mewn eiddo sy’n wynebu ffordd heb ei mabwysiadu.

608. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 17 Tachwedd 2021 fel cofnod gwir a chywir.

609. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Mae’r mis diwethaf wedi bod yn un cymharol brysur felly ni fyddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi am bopeth sydd wedi digwydd, ond soniaf am rai uchafbwyntiau.

Roedd y digwyddiad Codi Arian Elusennol a drefnwyd gan fy ngwraig a minnau yng Ngwesty'r Heronston ddiwedd Tachwedd yn noson allan wych a chodwyd dros £1,000. Cafodd pawb a oedd yno noson hwyliog. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a brynodd docynnau ac i'r rhai a gyfrannodd wobrau raffl neu a roddodd gyfraniadau oherwydd eu bod yn methu â bod yn bresennol. Nid yw digwyddiadau o'r fath yn hawdd i'w trefnu heb unrhyw gefnogaeth, ond rwy'n falch o ddweud i'r noson fod yn llwyddiant.

Mynychais agoriad swyddogol Canolfan Addysg a Lles Y Nyth ym Mharc Bryngarw sy'n gyfleuster gwych i blant o bob oed ddysgu am ein hamgylchedd a'n mannau awyr agored. Roedd nifer o blant yn bresennol a oedd â chryn ddiddordeb yng nghadwyn y maer ond fe lwyddais i'w gadael heb iddi gael ei thorri! Fy mai i yn rhannol serch hynny oedd y diddordeb oherwydd i mi ddechrau gwneud argraffnodau clai o arfbais y maer.

Cynhaliwyd fy ymweliad cyntaf â Chwm Ogwr gyda gwahoddiad i lansiad llyfr blynyddol Cymdeithas Treftadaeth Leol a Hanes Cwm Ogwr yn y Mem yn Nantymoel. Cafwyd perfformiadau gan Gôr Meibion Cwm Ogwr a hefyd Seindorf Arian Cwm Ogwr gyda nifer o garolau Nadolig. Gobeithiaf ddychwelyd eto'n fuan i agor yn ffurfiol gofeb newydd y glowyr sydd wedi'i gosod ger y man lle safai Canolfan Berwyn ar un adeg.

Yn olaf, nodwch fod y Gwobrau Dinasyddiaeth ar agor ar gyfer enwebiadau ond byddant yn cau ddydd Gwener 7 Ionawr 2022. Fy mhle i chi i gyd yw i bob Cynghorydd enwebu o leiaf un unigolyn neu grŵp o'ch ardal. Gyda dim gwobrau yn bosibl y llynedd, gadewch i ni wneud eleni yn un o'r blynyddoedd gyda'r nifer fwyaf o enwebiadau erioed, i ddiolch i'r rhai yn ein cymunedau sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol ddydd ar ôl dydd i helpu eraill a gwneud gwahaniaeth.

<u>Y Dirprwy Arweinydd</u>

Mae manylion trefniadau ailgylchu a chasglu gwastraff y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi'u cadarnhau.

Gyda'r pandemig yn dal i fod mewn grym, rydym yn gofyn unwaith eto i gartrefi lle mae rhywun yn dangos symptomau coronafeirws wneud yn siŵr bod yr holl wastraff papur, fel papur cegin, papur toiled neu weips gwlyb, yn cael ei roi mewn bagiau dwbl a'i roi o'r neilltu am 72 awr.

Ar ôl hyn, gellir gosod y bag y tu mewn i'r bag sbwriel cartref. Er mwyn helpu i gadw casglwyr yn ddiogel, ni ddylid ar unrhyw gyfrif gynnwys gwastraff o'r fath gyda phapur sy'n cael ei ailgylchu.

Bydd casgliadau eleni yn cael eu gwneud yn ôl yr arfer hyd at ac yn cynnwys ar Noswyl Nadolig, ond nid ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan na Dydd Calan.

Rhwng dydd Llun 27 a dydd Iau 30 Rhagfyr, bydd casgliadau'n digwydd ddiwrnod yn hwyrach na'r dyddiad casglu arferol.

Bydd gwastraff sydd i'w gasglu ar Nos Galan yn cael ei godi ddydd Sul, 2 Ionawr, a bydd y casgliadau'n dychwelyd i'r arfer o ddydd Llun 3 Ionawr 2022.

Bydd preswylwyr yn gallu rhoi un bag sbwriel ychwanegol allan ar gyfer y casgliad sbwriel cyntaf a drefnwyd ar ôl y Nadolig. Bydd cerbyd ychwanegol yn casglu cardbord hefyd, felly sylwch y gallai hwn gael ei gasglu ar wahân i ddeunydd ailgylchu arall o'r cartref.

Efallai y bydd yr Aelodau am atgoffa trigolion nad oes cyfyngiad ar faint o ailgylchu y gellir ei roi allan i'w gasglu, ac y gellir ailgylchu mwyafrif helaeth y deunyddiau. Y prif

eitemau na ellir eu hailgylchu yw cardiau sydd â glitr arnynt, papur lapio, plastig du, papur lapio seloffen, papur lapio swigod a pholystyren.

Gellir cael gwared ar goed Nadolig go iawn mewn canolfannau ailgylchu cymunedol lleol ym Mrynmenyn, Llandudwg a Maesteg, neu gellir eu gollwng yn Nepo Waterton o ddydd Mawrth 4 Ionawr ymlaen.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Gill Lewis, Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid sydd yn ei chyfarfod olaf o'r Cyngor heddiw cyn iddi adael yr Awdurdod ddiwedd yr wythnos hon. Mae ei gwasanaethau i'r Awdurdod yn ei swydd ers iddi gyrraedd y Cyngor wedi bod yn anfesuradwy ac mae wedi bod yn ased gwych. Mae hyn wedi profi'n arbennig o wir ers y pandemig, lle mae hi wedi cadw cyllid yr Awdurdod yn ddiogel mewn un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus yn ein hanes. Mae wedi bod yn bleser gweithio ochr yn ochr â Gill, y mae gennyf barch mawr ati fel Swyddog.

Estynnaf groeso cynnes hefyd i olynydd Gill, Carys Lord.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei ddiolchgarwch personol i Gill Lewis, ar ran y Cyngor. Ychwanegodd fod Gill wedi bod yn weithiwr proffesiynol eithriadol ers iddi ymuno â'r Cyngor am gyfnod a oedd wedi'i gynllunio i fod yn ychydig fisoedd yn unig er iddi aros am 4 blynedd yn y diwedd. Y rheswm am hynny, serch hynny ychwanegodd, oedd oherwydd iddi osod y bar mor uchel nid yn unig fel Swyddog Adran 151, ond hefyd fel y Swyddog â Gofal Tai, Gofal Cwsmeriaid a TGCh.

O ran yr olaf, bu'n rhaid i Gill gefnogi dros nos drwy ddarparu offer hanfodol, tua 2,000 – 3,000 o Swyddogion er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor drwy weithio gartref, yn ogystal â darparu llety dros dro i dros 200 o bobl oedd yn ddigartref ac rydym yn wir yn dal i ddarparu cymorth i'r bobl fregus hyn, yn ogystal ag i eraill yn y gymdeithas. Er gwaethaf yr ymrwymiad hwn, roedd Gill hefyd wedi cadw gafael haearnaidd ar bwrs y Cyngor a'i gyllid.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn hynod ddiolchgar am y gwasanaeth rhagorol yr oedd wedi'i ddarparu yn ystod y 4 blynedd diwethaf a chroesawodd yn gynnes y sawl a benodwyd i gymryd ei lle fel Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, Carys Lord, a oedd yn sicr fyddai'n darparu cymorth rhagorol tebyg ym meysydd gwasanaeth uchod y Cyngor.

Ategwyd y teimladau hyn gan y Maer a'i gyd-Aelodau.

Diolchodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid i'r Aelodau am y sylwadau cynnes hyn o werthfawrogiad.

<u>Aelod Cabinet - Cymunedau</u>

Ynghyd â'r Maer, yr Arweinydd a chydweithwyr yn y Cabinet, roeddwn yn falch iawn o fynychu agoriad canolfan addysg a lles newydd yn ddiweddar ym Mharc Gwledig Bryngarw ynghyd â Dawn Bowden, y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon.

Mae'r ganolfan newydd o'r enw 'Y Nyth', yn un o nifer o welliannau newydd a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn dilyn buddsoddiad o £750,000 gan raglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Mae'r rhaglen wedi sefydlu deuddeg o 'byrth darganfod' sydd wedi'u dylunio i gydnabod a gwneud y mwyaf o asedau naturiol a diwylliannol i gynhyrchu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae Y Nyth yn cynnwys ystafell ddosbarth a chegin bwrpasol, tra bod canolfan ymwelwyr y parc wedi cael ei hailddatblygu i gynnig gweithgareddau gydol y flwyddyn i deuluoedd ac ymwelwyr.

Mae offer chwarae naturiol awyr agored newydd wedi'i osod sydd wedi'i gynllunio i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol plant, datblygu eu creadigrwydd, eu dychymyg a'u meddwl beirniadol, ac annog eu rhyngweithio cymdeithasol.

Mae lloches feiciau newydd wedi'i gosod gyda tho 'gwyrdd' i gynyddu bioamrywiaeth, a gosodwyd paneli solar yn y ganolfan ymwelwyr, y caffi, adeilad B-Leaf a swyddfeydd y stablau.

Mae'r parc hefyd wedi elwa o lwybrau pren newydd ac uwchraddio'r llwybrau, cyfleusterau cyhoeddus wedi'u hadnewyddu a llwybr cerfluniau newydd sy'n arwain trwy bump o'r cynefinoedd naturiol sydd i'w cael ym Mryngarw.

Mae Parc Gwledig Bryngarw yn wirioneddol yn un o'r gemau yng nghoron y fwrdeistref sirol, a gobeithiaf y bydd yr aelodau'n ymweld â'r parc i weld drostynt eu hunain sut mae'r gwelliannau hyn yn rhoi profiad gwell i ymwelwyr.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Lyn Walters am ei holl waith caled yn ddiweddar, drwy gynorthwyo yn Ravenscourt i weinyddu'r pigiad atgyfnerthu Covid er mwyn helpu i amddiffyn unigolion rhag y clefyd ac yn enwedig y straen Omicron newydd.

<u>Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio mai ym mis Rhagfyr 2020 y bu'r Cynghorydd Burnett yn hysbysu'r Cyngor gyntaf am y pwysau eithafol sy'n wynebu ein gwasanaeth gofal cartref, a sut yr oedd hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws y sector gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Flwyddyn yn ddiweddarach, hoffwn godi hyn drwy roi trosolwg byr i chi o'r sefyllfa bresennol, a'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud i'w lliniaru dros y deuddeg mis diwethaf.

Er bod y sefyllfa'n parhau i fod yn anodd a'n gwasanaethau'n parhau i wynebu heriau difrifol, rydym yn bodloni'r mwyafrif llethol o anghenion lleol mewn ffordd amserol ac effeithiol.

Mae cymhariaeth â ffigurau cyn y pandemig yn datgelu cynnydd o wyth y cant yn nifer yr oriau gofal a ddarparwyd ers 2017-18, ac mae tueddiadau presennol yn dangos y gallwn ddisgwyl gweld angen cynyddol er mwyn cefnogi pobl i aros mor iach ac annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

Hoffwn ddechrau'r datganiad hwn drwy dalu teyrnged i'n gweithlu gofal cymdeithasol rheng flaen sydd wedi gweithio'n ddiflino am y ddwy flynedd ddiwethaf ac sy'n gofalu am fwy o bobl, gyda lefel uwch o anghenion, nag erioed o'r blaen.

Mae angen i mi hysbysu'r Cyngor, fodd bynnag, bod nifer y bobl sy'n aros i gael eu hanghenion wedi'u hasesu am ofal a chymorth yn cynyddu ar hyn o bryd.

Mae llawer iawn o waith wedi digwydd dros y deuddeg mis diwethaf, ar lefel leol a chenedlaethol.

Ddoe cymeradwyodd y Cabinet drefniadau comisiynu newydd ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref a fydd yn galluogi pob darparwr i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithlu.

Rydym wedi cefnogi'r sector yn sylweddol drwy'r gronfa adfer gofal cymdeithasol i sicrhau bod darparwyr mewn sefyllfa i dalu eu staff ar y lefel honno cyn i'r contractau newydd ddod i rym yn 2022-23.

Fel y gwyddoch, rydym wedi sefydlu grŵp prosiect gyda'r nod o ddatblygu cynllun gweithredu a all ddiwallu anghenion mewn ffordd wahanol. Rydym yn edrych ar ffyrdd o gefnogi staff yn y sector gofal cymdeithasol ac wedi bod yn cefnogi darparwyr drwy'r gronfa adfer gofal cymdeithasol.

Os yw pobl yn aros am ofal a chymorth gartref, mae risgiau i'w llesiant yn cael eu rheoli gan adolygiad ac asesiad rhagweithiol o amgylchiadau pob unigolyn. Rydym yn cynnwys pobl eu hunain, eu teuluoedd a gofalwyr anffurfiol yn uniongyrchol yn hyn.

Lle nad yw dal i aros yn ddewis, mae darpariaeth amgen megis cyfleoedd dydd, gofal preswyl, ail-alluogi preswyl a seibiannau byr yn cael eu harchwilio a'u cynnig.

Rydym hefyd yn defnyddio taliadau uniongyrchol cyflym a'r grant gofalwyr i ddiwallu anghenion asesedig pobl ac rydym yn cysylltu'n agos â theuluoedd ynghylch faint o gymorth y gallan nhw ei gynnig.

Mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn anodd ac nid yw wedi cael ei helpu gan y ffaith bod tri darparwr annibynnol wedi rhoi rhybudd ynghylch rhai pecynnau gofal, sy'n golygu ei fod wedi creu galw ychwanegol gan oddeutu 39 o bobl a mwy na 400 o oriau gwasanaeth.

O ran ein cynllun gweithredu cartref, mae'r grŵp prosiect yn anelu at gynyddu capasiti o ran 20 aelod staff ychwanegol erbyn 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, tra bod Gwasanaeth Ailalluogi wedi'i ailgyflwyno ym Mryn y Cae i gefnogi pobl ag anghenion ailalluogi.

Mae strategaethau marchnata amrywiol wedi'u cyflwyno i roi cyhoeddusrwydd mor eang â phosibl i swyddi gweigion, ac rydym wedi cymryd rhan yn y rhaglen recriwtio genedlaethol 'Rydym yn Gofalu' ac wedi elwa ohoni.  Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn sioeau recriwtio teithiol.

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio staff achlysurol i feithrin gallu ar gyfer ein gwasanaethau mewnol, tra bod Adnoddau Dynol yn adolygu achosion o absenoldeb hirdymor ac yn cefnogi staff i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted ag sy'n ymarferol.

O ran camau gweithredu sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd, mae sioeau teithiol recriwtio cymunedol wedi'u cynnal ym Mhorthcawl a Chwm Ogwr ac yn cael eu cynllunio ar gyfer Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr, ac rydym wrthi'n hyrwyddo llwybrau gyrfa i farchnata dewisiadau sydd ar gael yn y sector gofal cymdeithasol.

Mae ymgyrch gyhoeddusrwydd ar y cyd yn cael ei chynllunio a fydd yn cynnwys cyfres o hysbysebion ar Bridge FM a fydd yn rhoi sylw i ofalwyr presennol yn siarad am eu rolau, ac mae staff hefyd wedi cael cynnig cyfle i gynyddu eu horiau cytundebol.

Mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff nad ydynt yn gyrru, ac mae cynnig trafnidiaeth amgen yn un o'r dewisiadau sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Os bydd yn llwyddiannus, gallai hyn weld lansio ceir fflyd cwbl newydd, beiciau trydan, sgwteri a mwy fel ffordd o sicrhau bod staff nad oes ganddynt gar yn gallu dal i wneud eu rowndiau.

Rydym hefyd yn datblygu system rhybuddio cynnar a fydd yn adnabod arwyddion bod y sector annibynnol yn ei chael hi'n anodd darparu pecynnau gofal ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Gweithlu Datblygu Gofal Cymdeithasol i greu rhaglen sefydlu sy'n cefnogi darparwyr annibynnol sy'n cael trafferth cadw staff.

Yn olaf, cytunwyd ar gynllun peilot i ddefnyddio gweithwyr cymorth gofal iechyd ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith, ac mae adolygiad o wasanaethau dydd ar y gweill.

Mae'r cynllun yn archwilio ystod eang o opsiynau ar gyfer ymestyn oriau agor, addasu amserlenni gofal, dadansoddi problemau staffio a chludiant, a llawer mwy.

Felly, i grynhoi, rydym yn gwneud mwy nag erioed o'r blaen. Gyda chynlluniau tymor byr, canolig a hwy ar waith, ymdrinnir â thelerau ac amodau drwy gronfeydd adennill ac ail-gomisiynu. Rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac y gellir diwallu anghenion mewn ffyrdd gwahanol lle bo angen.

Hoffwn ychwanegu hefyd fod pob rhan o Gymru ac yn wir y DU yn yr un sefyllfa ac yn wynebu'r un mathau o heriau.

<u>Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant</u>

Efallai yr hoffai Aelodau hysbysu eu hetholwyr y gallai pobl sy'n rhentu'n breifat ond sydd ar ei hôl hi gyda'u rhent oherwydd Covid-19 wneud cais am y Grant Caledi i Denantiaid, menter a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

I fod yn gymwys, rhaid iddynt fod ag o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu wedi'i gronni rhwng 1 Mawrth 2020 a 30 Mehefin 2021, ac ni ddylai tenantiaid fod wedi derbyn budd-dal tai tra roedd y rhent nas talwyd yn cronni.

Mae'r grant wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat a allai fod wedi bod ar ffyrlo, a allai fod wedi profi gostyngiad aruthrol yn eu horiau, neu hyd yn oed sydd wedi colli eu swyddi oherwydd y pandemig.

Mae'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord neu'r asiant i leihau'r tebygolrwydd o golli'r denantiaeth ac nid oes rhaid ei dalu'n ôl.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais ar gael ar wefannau'r cyngor a Llywodraeth Cymru.

<u>Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio</u>

Yn dilyn ymlaen o newyddion da tebyg y mis diwethaf gydag Ysgol Gynradd Plasnewydd, Maesteg, mae Ysgol Gynradd Cwm Ogwr bellach hefyd wedi derbyn anrheg Nadolig cynnar gyda'r un newyddion, sef ei bod wedi cael ei symud allan o fesurau arbennig. Felly nid oes unrhyw ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn mesurau arbennig ar hyn o bryd.

Mae arolygwyr o Estyn wedi cadarnhau eu bod yn fodlon fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol ar gyfres o argymhellion.

Mae hyn yn newyddion ardderchog i'r ysgol. Gwn fod Swyddogion y Cyngor a chydweithwyr o Gonsortiwm Canolbarth y De wedi bod yn gweithio'n agos gydag athrawon a phrifathro'r ysgol er mwyn cyflawni'r cynnydd angenrheidiol sydd bellach wedi'i wneud a hoffwn eu llongyfarch i gyd am eu hymdrechion.

Mae Chris Elmore AS wedi cyflwyno Cerdyn Nadolig eleni, gyda dyluniadau hyfryd arnynt a roddwyd at ei gilydd gan rai o blant ysgol y Fwrdeistref Sirol. Hoffwn felly ddiolch i Dylan Simmonds, Ysgol Gynradd Betws, Layla Roll-Jones, Ysgol Gynradd Cynwyd Sant, a Lucy Evans, am eu dawn a'u dychymyg gyda chynllunio'r cerdyn.

Yn olaf, bydd Cerddorfa Gymunedol Porthcawl yn chwarae Carolau Nadolig yn John Street, Porthcawl, ddydd Sadwrn nesaf, rhwng 11am – 1pm, felly byddai croeso mawr i unrhyw gyfraniadau gan y cyhoedd at elusen yma.

<u>Y Prif Weithredwr</u>

Efallai bod Aelodau wedi gweld sylw yn y cyfryngau neu bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â chyfyngiadau dros dro yr ydym wedi cael ein gorfodi i'w gosod ar y defnydd o barthau gollwng disgyblion wrth dair ysgol leol.

Er mwyn eglurder, hoffwn gadarnhau'n fyr pam yr ydym wedi cael ein gorfodi i roi'r cyfyngiadau hyn ar waith.

Mae'r parthau gollwng yr effeithir arnynt wedi'u lleoli yn Ysgol Gynradd Brynmenyn, Ysgol Gynradd Pencoed a Choleg Cymunedol y Dderwen lle, os cânt eu defnyddio'n gywir, maent yn cynnig cyfleuster diogel a chyfleus.

Yn anffodus, dywedwyd wrth rieni a gofalwyr yn yr ysgolion fod asesiad o'r parthau gollwng wedi datgelu rhai pryderon eithaf difrifol ynghylch y camddefnydd a wneir ohonynt a allai, pe bai'n parhau, arwain at eu tynnu'n ôl.

Er gwaethaf hyn, parhawyd i sylwi ar ddigwyddiadau lluosog o gerbydau'n gwneud symudiadau peryglus, yn teithio'n gyflym, yn blocio neu'n peidio â defnyddio'r mannau gollwng yn gywir, gan anwybyddu cyfarwyddiadau gan swyddogion ar y safle a mwy, gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau a fu bron yn ddamweiniau.

Yn amlwg, ni allwn gyfaddawdu lle mae diogelwch disgyblion yn y cwestiwn. Penderfynwyd sicrhau bod y parthau gollwng ar gael i staff sy'n gweithio yn yr ysgol, rhieni a gofalwyr sy'n ddeiliaid Bathodyn Glas, a cherbydau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn unig

Fel y gallech ddisgwyl, nid yw hyn wedi bod yn boblogaidd gyda nifer o rieni a gofalwyr, ond gobeithiaf y bydd yr aelodau'n gwerthfawrogi sut mae'r brys i gau yn adlewyrchu pa mor ddifrifol y mae'r awdurdod a'r ysgolion yn cymryd y mater.

Mae swyddogion eisoes yn edrych ar opsiynau a allai ddarparu dewis amgen diogel sy'n blaenoriaethu diogelwch disgyblion a cherddwyr sy'n mynychu neu'n ymweld â'r ysgolion hyn, ond tan hynny, rhaid i'r cyfyngiadau dros dro aros yn eu lle.

Gobeithiaf y bydd yr eglurhad byr hwn yn dangos rhywfaint o gefndir y penderfyniad.

Fel y mae'r Aelodau wedi'i gadarnhau eisoes, newydd arall yw mai heddiw yw'r tro olaf y bydd ein Pennaeth Cyllid, Gill Lewis, yn mynychu'r Cyngor.

Rydych chi fel arfer yn ennill amser i ffwrdd am ymddygiad da, ond efallai y bydd yr Aelodau'n cofio bod Gill wedi ymuno'n wreiddiol am chwe mis ac wedi aros am fwy na phedair blynedd yn y diwedd!

Roedd hyn yn bennaf oherwydd inni geisio droeon recriwtio rhywun o'i hansawdd hi, ond wedi methu â gwneud hynny.

Roedd cyfnod Gill yn cyd-daro â rhai o'r amgylchiadau ariannol llymaf y mae'r Cyngor hwn wedi gorfod eu hwynebu erioed, ac ar ben hynny, rydym wedi cael pandemig Coronafeirws i ymdopi ag ef hefyd.

Drwy gydol hyn oll, mae gafael Gill ar y materion dan sylw wedi bod yn ddiguro, ac mae hi wedi dangos doethineb amhrisiadwy ac arweinyddiaeth gref.

Mae hi wedi gwneud gwaith rhagorol yn llywio cyllid y Cyngor drwy adegau anodd ac ansicr iawn, yn ystod cyfnod o lymder i ddechrau ac yna'n ddiweddarach drwy'r pandemig a'r holl heriau a ddaeth yn ei sgil, nid yn unig o ran cyllid a darparu grantiau lluosog, ond hefyd mewn meysydd fel digartrefedd, TGCh, trawsnewid digidol, gofal cwsmeriaid a mwy.

Nid yw'n gyfrinach na fydd gweithredu fel swyddog Adran 151 y Cyngor byth yn helpu unrhyw un i ennill cystadleuaeth poblogrwydd. Dyma'r swydd lle rydych yn aml yn gweld eich hun yn gorfod dweud 'na' wrth i chi geisio ymdrin â materion fforddiadwyedd a chydymffurfio â nifer o godau cyfrifyddu, egwyddorion ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig a mwy.

Y newyddion da yw bod Gill wedi chwarae rôl 'dihiryn pantomeim' yn dda iawn. Mae ein rheolaeth ariannol yn cael ei hystyried yn arbennig o dda gan reoleiddwyr ac archwilwyr fel ei gilydd, ac mae profiad ac arbenigedd Gill yn parhau i gael ei barchu'n fawr gan rai fel y Pwyllgor Archwilio, ei chydweithwyr yn y CMB ac aelodau yn gyffredinol.

Er bod Gill yn bwriadu treulio mwy o amser yn chwarae golff ac yn teithio pan fydd amodau'r pandemig yn caniatáu, deallaf ei bod yn bwriadu parhau i weithio i ddechrau gyda chydweithwyr ym maes iechyd, a'i bod hefyd wedi cael rhywfaint o waith yn Jersey ac yn ddiau, bydd hynny'n ei gwneud yn haws iddi ddelio efo'i holl gyfrifon alltraeth!

Rwyf i a'i chydweithwyr yn y CMB hefyd yn amau y bydd Gill yn poeni ei bwtler, sy'n dyblu fel ei gŵr, am fwy o baneidiau o de.

Diolch i Gill ar ran y Cyngor, am bopeth y mae hi wedi'i wneud tra bu yn yr Awdurdod a dymunaf y gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

610. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Bydd yr Aelodau wedi gweld y newid sydd wedi'i wneud ar y Cabinet ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r Cynghorydd Nicole Burnett am ei hymroddiad a'i phroffesiynoldeb fel Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar.

Hoffwn hefyd gynnig croeso cynnes i'r Cynghorydd Jane Gebbie fel yr Aelod Cabinet newydd sy'n egnïol, yn angerddol ac yn brofiadol iawn.

Mae newidiadau brys i'r ffordd y mae pobl yn derbyn eu brechiadau atgyfnerthu Covid-19 yn cael eu cyflwyno wrth i ymdrechion cenedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad yr amrywiolyn Omicron newydd ddechrau.

Daw hyn yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd pob oedolyn cymwys yng Nghymru yn cael cynnig pigiad atgyfnerthu brechlyn Covid-19 erbyn diwedd y mis.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddarparu 166,000 o bigiadau atgyfnerthu ledled y rhanbarth erbyn 31 Rhagfyr 2021.

Cyfarfu'r Prif Weithredwr a minnau ynghyd ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i drafod a datblygu'r gwaith o gyflymu'r rhaglen frechu ar frys, er mwyn cyrraedd y targedau hyn.

Ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, mae'n golygu bod angen cyflwyno nifer o newidiadau pwysig yng nghanolfan frechu Ravens Court.

Er mwyn darparu ar gyfer mwy o apwyntiadau, mae oriau agor yn cael eu hymestyn i gynnwys 7am-10pm. Yr unig eithriadau fydd Noswyl Nadolig (7am-2pm) a Nos Galan (7am-4pm).

Bydd y ganolfan hefyd yn parhau i fod yn weithredol bob dydd o'r wythnos, gan gynnwys gwyliau banc, ac eithrio ar Ddydd Nadolig a Dydd Calan.

Oherwydd y bydd y ganolfan ar agor yn gynharach yn y bore ac yn hwyrach yn y nos, mae goleuadau allanol ychwanegol a llochesi yn cael eu gosod.

Y tu mewn i'r ganolfan, bydd pigiadau atgyfnerthu a brechiadau safonol yn cael eu rhoi ochr yn ochr â'i gilydd. Mae lonydd brechu newydd yn cael eu sefydlu i wneud hyn, ac mae staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i sicrhau bod y broses yn gallu rhedeg yn esmwyth. Rydym wedi secondio 5 aelod o staff ychwanegol i gynorthwyo gyda gweithredu hyn.

Er nad oes apwyntiadau galw i mewn ar gyfer brechiadau atgyfnerthu ar gael ar hyn o bryd, bydd slotiau galw i mewn yn parhau i gael eu cynnig i bobl gymwys sydd angen derbyn dos cyntaf neu ail ddos o'r brechlyn.

Unwaith y byddant wedi cael eu pigiad, bydd yr amser y bydd angen i bobl aros cyn gadael y safle yn cael ei leihau i bum munud.

Mae'r apwyntiadau'n cael eu trefnu nawr a byddant yn cael eu cynnig yn awtomatig i bob oedolyn cymwys yn y fwrdeistref sirol.

Ni fydd angen i bobl gysylltu â'r bwrdd iechyd na'r meddyg teulu lleol, ond dylent ddisgwyl cael apwyntiad drwy neges destun. Dim ond y rhai nad ydynt wedi rhoi rhif ffôn cyswllt fydd yn cael apwyntiad drwy'r post, sy'n wahanol i'r hyn a oedd yn digwydd ar gyfer y ddau ddos blaenorol.

Hyd yn oed os yw'r apwyntiad ar Noswyl Nadolig neu Nos Galan, ni allaf bwysleisio'n ddigon cryf pa mor bwysig fydd hi i bobl dderbyn yr un a gynigir.

Mae'n parhau i fod yn hanfodol i bobl sicrhau eu bod yn cael y pigiad atgyfnerthu. Mae hyn yn dal i fod yn hanfodol ar gyfer gwella ein lefelau o amddiffyniad yn erbyn y straen Omicron sy'n symud yn gyflym, ac mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein hunain, ein ffrindiau, teulu, cydweithwyr a chymdogion yn ddiogel.

Bydd yr apwyntiadau yn dechrau dod drwodd yn fuan iawn, a byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am gyflwyno system y pigiadau atgyfnerthu.

Mewn newyddion eraill, rwy'n siŵr y bydd yr aelodau'n falch o wybod bod contractwr newydd wedi'i benodi ar gyfer adeiladu'r cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i gynllunio ar dir oddi ar Stad Ddiwydiannol Isfryn ym Melin Ifan Ddu.

Ar ôl i'r contractwr blaenorol fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, mae Stafford Construction Ltd, cwmni lleol a phrofiadol, wedi derbyn y contract ar gyfer y gwaith. Mae amserlen newydd

yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd, a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn y Flwyddyn Newydd.

Bydd yr hyb yn un o bedwar cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg cwbl newydd a gynllunnir ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Wedi'u cynllunio i wasanaethu Cwm Ogwr, bydd y lleoliadau'n darparu 16 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sesiynol, ynghyd â chwe lle i blant hyd at ddwy oed, a darpariaeth gofleidiol neu y tu allan i'r ysgol am 52 wythnos y flwyddyn.

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd yn cynnwys man chwarae newydd, ystafelloedd tawel, cyfleusterau storio, swyddfeydd a maes parcio gyda lle i hyd at saith cerbyd. Gyda thirlunio newydd o flaen ac ar ochr yr hyb, bydd cyfleusterau chwarae meddal yn cael eu gosod yn ogystal â chanopi a fydd yn gallu rhoi cysgod i blant chwarae yn yr awyr agored.

Ar yr un pryd, mae Stafford Construction hefyd wedi dechrau gweithio ar y cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn Betws.

Wedi'i leoli ar safle'r hen Glwb Bechgyn a Merched, bydd hwn yn gwasanaethu Cwm Garw ac ardal gyfagos porth y cymoedd ac yn cynnwys cyfleusterau tebyg i'r rhai ym Melin Ifan Ddu.

Gyda dwy ganolfan arall eto i ddod ym Mhorthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol o £2.8m mewn cyfleusterau a gwasanaethau Cymraeg, ac mae hefyd yn tanlinellu ymrwymiad parhaus y cyngor tuag at ofal plant a hyrwyddo'r Gymraeg.

Rwyf yn siŵr y bydd yr aelodau'n croesawu'r newyddion da hwn, a'ch bod chi, fel fi, yn edrych ymlaen at weld yr hybiau'n datblygu.

611. <u>DEDDF HAPCHWARAE 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION TRWYDDEDU 2022-2025</u>

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd o 2022 i 2025.

Dywedodd fod gan y Cyngor fel awdurdod lleol swyddogaethau strategaeth o dan y Ddeddf Hapchwarae ac felly roedd yn rhaid iddo gyflawni'r rhain yn effeithiol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r uchod ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau i'r Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi'u hamlygu mewn coch yn y ddogfen yn Atodiad A i'r adroddiad.

Roedd yr adolygiad arfaethedig hefyd wedi ystyried effaith digynsail y pandemig Coronafeirws ar fusnesau a oedd yn darparu cyfleusterau gamblo.

Roedd Paragraff 3.5 yr adroddiad yn nodi'r tri amcan trwyddedu a oedd yn ganolog i reoleiddio gamblo a'r egwyddorion y mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu oddi tanynt yn unol â'r rhain.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir nad oedd gan y Cyngor gyfrifoldeb am hapchwarae ar-lein. Dim ond am weithgareddau trwyddedadwy ar

safleoedd trwyddedig yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt a dangoswyd rhai enghreifftiau o'r rhain ym mharagraff 3.3 yr adroddiad.

Ychwanegodd fod yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r Polisi y mae'n rhaid cytuno arno bob tair blynedd.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wrth yr Aelodau fod Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor wedi cymeradwyo'r adroddiad yn flaenorol ac argymhellodd ei fod wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gadarnhau. Argymhellodd y Pwyllgor ymhellach fod y Cyngor yn cymeradwyo'r set bresennol o egwyddorion, i'w cyflwyno am y cyfnod o dair blynedd nesaf.

Er iddo wneud y pwynt nad oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb am hapchwarae ar-lein, roedd hyn yn cael effaith sylweddol ar ein cymunedau lleol, ac felly roedd yn integreiddio â rhai o bolisïau'r Cyngor, megis gofalu am lesiant a/neu iechyd meddwl unigolion.

Felly, rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau fod swyddogion awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Comisiwn Hapchwarae, Llywodraeth Cymru ac efallai'n bwysicaf oll, â'r Prif Swyddog Meddygol, a oedd i gyd yn cydnabod sut mae hapchwarae'n effeithio'n andwyol ar gymunedau lleol ac roeddent yn edrych ar gamau i reoli hyn.

Felly, daeth Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i'r casgliad, er na allai'r Polisi reoli gamblo ar-lein, fod y gwasanaeth yn ceisio defnyddio cymaint o liferi ag sy'n bosibl, i amddiffyn aelodau'r cyhoedd allan yn y gymuned. Roedd yn hawdd trwy hapchwarae ar-lein colli cannoedd o bunnoedd mewn mater o funudau, heb i rywun orfod gadael ei ystafell fyw. Felly, roedd yr her i'w rwystro, ei atal neu ei leihau, yn un anodd.

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir o'r Cyngor cyn ymddeol, dymunodd y Maer ynghyd ag Aelodau eraill y gorau iddo yn ei ymddeoliad a phwysleisiodd y ffaith ei fod wedi bod yn Swyddog rhagorol yn gofalu am fuddiannau etholwyr tri awdurdod lleol, a oedd yn her ynddi'i hun a wnaed yn llawer gwaeth, oherwydd y gwaith ychwanegol yr oedd y gwasanaeth wedi'i wneud yn ystod y pandemig.

Ategodd yr Arweinydd y teimladau hyn gan ychwanegu bod Dave Holland a'i gydweithwyr yn llythrennol wedi achub miloedd o fywydau pobl yn ystod y pandemig trwy waith caled a oedd ar adegau wedi bod yn ormesol ar staff o fewn y gwasanaeth. Dymunodd yr aelodau'r gorau hefyd i'w olynydd Helen Picton.

Diolchodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i'r Aelodau am eu geiriau caredig ar ei ran ef a'i Swyddogion, a oedd wedi gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth yr oedd yr Aelodau wedi'i rhoi iddynt, yn enwedig yn ystod cyfnod Covid-19.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu, yn ymgorffori'r diwygiadau a amlygwyd yn Atodiad A yr adroddiad, ynghyd â'r diwygiad ychwanegol ym mharagraff 4.6 a chymeradwyo ei gyhoeddi yn unol â'r rheoliadau priodol. |

612. CYFLWYNIAD GAN FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG A RHAGLEN O GYFLWYNIADAU I'R CYNGOR YN Y DYFODOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad uchod, gyda rhan ohono'n cyflwyno'r cynrychiolwyr a oedd yn bresennol o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol uchod (BIP CTF).

Yn bresennol o'r Bwrdd Iechyd roedd Paul Mears, Prif Weithredwr, Emrys Elias, Cadeirydd ac Anthony Gibson, Cyfarwyddwr Grŵp, ILG Pen-y-bont ar Ogwr.

Mynegodd Mr. Mears, y Prif Weithredwr, pa mor falch ydoedd o allu bod yn bresennol heddiw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Fel y byddai'r Cyngor yn sylweddoli, bu gwaith cyson gyda staff a oedd dan bwysau aruthrol drwy gydol y pandemig hyd heddiw.

Byddai'r cyflwyniad heddiw yn amlwg yn ymdrin â COVID-19 a chynllunio ynghylch adfer gwaith llawfeddygol dewisol a chynllunio ar gyfer gwaith y gaeaf rydym yn ei wneud mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Cyngor yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd Prif Weithredwr Cwm Taf hefyd yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau mamolaeth a newydd-enedigol, yr Ysbyty Cymunedol, Maesteg a CAMHS.

Bellach roedd cyfnod brig unwaith eto yn cael ei brofi mewn perthynas â COVID, ar ffurf amrywiolyn Omicron a oedd yn dechrau cydio yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oedd wedi cael effaith mor sylweddol o ran derbyniadau i'r ysbyty hyd yma yn CTM, ac yn wir roedd cyfraddau trosglwyddo Omicron yn gymunedol yn ein hardal yn dal yn gymharol isel. Fodd bynnag, fel gydag amrywiolion eraill o'r salwch bu'n rhaid i'r Gwasanaeth Iechyd edrych ar ei gapasiti dros yr ychydig wythnosau a'r misoedd nesaf i wneud yn siŵr bod cyflenwad digonol o staff ar gael i ymdopi ag unrhyw oblygiadau a allai ddod yn sgil y straen, hy derbyniadau i'r ysbyty a chapasiti o ran gwelyau ac ati. Mae'n debyg y bydd y straen hwn o'r salwch yn cynyddu'n gyflym iawn fel y mae eisoes yn ei wneud mewn rhannau o Loegr, ychwanegodd.

Yn amlwg, rhan allweddol o'r ymateb i COVID yw'r drefn brofi. Rydym wedi cael galw mawr iawn am ein profion PCR. Mae hynny'n eithaf sefydlog ar hyn o bryd, a'r cynllun yn amlwg yw parhau â'r capasiti profi sydd gennym ar draws ein hardal ffiniau iechyd, i sicrhau ein bod yn rhoi mynediad cyn gynted â phosibl i bobl a allai amau bod ganddynt symptomau, i allu eu cael wedi'u profi. Ac yn gefn i hynny mae'n amlwg mae'r olrhain cyswllt sydd y tu ôl i'r profion.

Roedd hefyd yn bwysig gwneud yn siŵr ein bod yn gallu olrhain a diogelu pobl sydd wedi dod i gysylltiad ag unigolion sydd wedi profi'n bositif am COVID.

O ran brechu, dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf fod 159,000 o bigiadau atgyfnerthu wedi'u rhoi ar draws ei ardaloedd, sef 49.59% o boblogaeth gymwys y Bwrdd Iechyd. Serch hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddeb yn ystod y diwrnodau diwethaf, y dylem fod yn cynnig y pigiad i bob un cymwys trwy Gymru.

Felly erbyn diwedd Rhagfyr, y nod yw cynnig pigiad i bawb yn ardal Cwm Taf, a theimlai'r Prif Weithredwr ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng cynnig y pigiad, a chael un ym mreichiau pobl mewn gwirionedd, sef y nod.

Yn amlwg, y rhesymeg y tu ôl i gynyddu ymgyrch y pigiadau atgyfnerthu yw ceisio mynd i'r afael â chynnydd yr amrywiolyn Omicron. Gwyddom fod y brechlyn yn rhoi amddiffyniad ychwanegol rhag yr amrywiolyn ac yn amlwg, rydym yn ceisio brechu cymaint o bobl â phosibl er mwyn lleihau effaith salwch pobl ar wasanaethau iechyd. Dywedodd y bydd llawer o Aelodau'n ymwybodol o'r cyfryngau nad ydym yn gwbl siŵr

eto beth fydd effaith yr amrywiolyn newydd ar dderbyniadau i'r ysbyty. Serch hynny, mae posibilrwydd y gallai'r amrywiolyn newydd arwain at straen sylweddol unwaith eto o ran adnoddau ar y Gwasanaeth Iechyd.

Eglurodd y Prif Weithredwr, Cwm Taf, fod canolfannau brechu ychwanegol bellach yn gweithredu o ddiwedd yr wythnos hon. Byddai'r rhain yn gweithredu o 7:00 a.m. tan 10:00 p.m., saith diwrnod yr wythnos. Roedd hyn, fodd bynnag, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gwm Taf gynyddu ei gapasiti staffio yn eithaf sylweddol, er mwyn gallu darparu gwasanaeth ar adeg pan fo staff o'r fath hefyd yn amlwg yn flinedig iawn oherwydd nad oedd unrhyw saib sylweddol wedi bod yn y pandemig a salwch i aelodau'r gymdeithas. Ychwanegodd y byddai'r fyddin hefyd yn helpu i gefnogi rhaglen y brechiad atgyfnerthu hon.

Yr unig eithriad i agor rhagor o ganolfannau brechu fyddai Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan. Oherwydd yr oriau agor ychwanegol hyn a rhagor o Ganolfannau ar agor, bu modd i ni ychwanegu 10,000 o apwyntiadau ychwanegol yr wythnos diwethaf ac rydym wedi gweld cynnydd pellach yr wythnos hon, gan ein bod wedi gallu cael mwy o staff wrth law i allu helpu i ehangu'r gweithlu brechu.

Diolchodd Prif Weithredwr Cwm Taf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am eu cymorth yn darparu llawer o gefnogaeth weinyddol i'r ymdrechion yn ymwneud â brechu, trwy ddarparu staff i gynorthwyo yma. Anogodd y Cynghorwyr hefyd i ymgysylltu â'u hetholwyr, i gael cymaint o bobl â phosibl i gael eu brechu yn y gymuned, ar draws pob ystod oedran. Gobeithio, drwy'r dull cydgysylltiedig hwn, y bydd pawb dros 18 oed wedi cael cynnig y pigiad atgyfnerthu erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Oherwydd pwysau parhaus Covid-19 a'r heriau a ddaeth yn sgil y salwch, yn anffodus roedd ôl-groniad sylweddol o gleifion bellach yn aros am weithdrefnau a llawdriniaethau wedi'u cynllunio.

Gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd ymdrechion ar y gweill i geisio delio â hyn. Eleni, roedd Cwm Taf wedi derbyn £16m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, roedd y Gwasanaeth Iechyd yn wynebu her sylweddol yn barhaus o ran ceisio jyglo'r galwadau cystadleuol o reoli cymorth brys i gleifion Covid, yn erbyn cefnogi cleifion â salwch a chlefydau eraill, a oedd wedi bod yn broblem enfawr ers dechrau'r pandemig.

Roedd problem yn parhau lle roedd pobl yn cael dyddiadau ar gyfer llawdriniaeth fawr, gyda'r rhain yn gorfod cael eu canslo ar y funud olaf oherwydd mewnlifiad o gleifion Covid i'r ysbyty oherwydd straen newydd o amrywiolion yn dod i'r amlwg, gyda hyn ar ben yr heriau yn ymwneud â chleifion oedd angen gofal sylfaenol; pobl yn cael apwyntiad gyda'u meddyg teulu ar gyfer salwch mwy cyffredinol arall a phobl yn teimlo'r straen meddwl a achosir gan y salwch, fel y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain ac yn profi unigedd, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo.

Mewn rhai ardaloedd, megis yn y Rhondda, roedd Canolfannau Gofal Sylfaenol wedi'u cyflwyno, er mwyn cymryd rhywfaint o'r straen a roddwyd ar y Gwasanaeth Iechyd gan y pandemig. Roedd wedi bod yn anodd i gleifion hefyd weld meddyg teulu am apwyntiad, a bu'n rhaid iddynt gael eu hasesu dros y ffôn yn gyntaf. Yr hyn a oedd wedi bod o gymorth yma fodd bynnag oedd y ffaith bod y gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau a oedd gynt ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unig, bellach wedi'u hymestyn ar draws ardal Cwm Taf. Felly roedd yn haws cael apwyntiad i weld meddyg teulu, er y gallai fod yn rhaid i gleifion deithio ar gyfer hyn yn hytrach na gweld eu meddyg teulu eu

hunain yn eu practis lleol. Roedd y gwasanaeth hwn hefyd wedi'i ymestyn ac roedd bellach yn wasanaeth 24 awr

Yn ychwanegol at hyn eglurodd Prif Weithredwr Cwm Taf, roedd cefnogaeth ein tîm Gofal Aciwt yn y gymuned a oedd yn wasanaeth cartref. Felly os oeddech yn glaf, a oedd wedi cael eich asesu gan feddyg teulu fel un oedd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol megis, er enghraifft, mewnbwn gan geriatregydd neu fod arnoch angen cael eich goruchwylio tra roeddech gartref, roedd nyrsys arbenigol ar gael yn y gymuned i ymweld â chleifion (yn eu cartrefi) ac mewn gwirionedd ofalu amdanynt yno, er mwyn osgoi dod â nhw i'r ysbyty. Roedd y rhain wrth gwrs yn gleifion y gellid eu trin yn ddigonol gartref heb fod angen iddynt ddod i mewn i sefydliad /amgylchedd gofal.

Canmolodd Prif Weithredwr Cwm Taf hefyd y gwaith partneriaeth a oedd yn parhau i gael ei ddatblygu rhyngddynt hwy a 3 awdurdod lleol Merthyr, RhCT a CBSP. Roedd hyn wedi datblygu ar y gwaith a gyflawnwyd yn ddiweddar, gan ganolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol ymhellach a dod ag iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd mewn modd llawer mwy cydgysylltiedig ar draws y 3 ardal. Roedd gwaith yn mynd rhagddo yma, roedd yn falch o gadarnhau, gan gynnwys fel ffrwd waith ar y cyd yn y dyfodol, gan ymdrin gyda'i gilydd â'r agenda datgarboneiddio, trefniadau rheoli cyfunol rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd, fel y rhai a brofir mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

Yna cyfeiriodd Prif Weithredwr, Cwm Taf, at rywfaint o'r gwaith gwella sydd wedi bod yn digwydd yn y gwasanaethau mamolaeth, gan gynnwys yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyfforddiant a datblygiad pellach i staff wedi helpu i gyflawni hyn, ychwanegodd.

Roedd gwaith pellach hefyd yn mynd rhagddo yn ein gwasanaethau newydd-enedigol, y rhoddir adroddiad amdano yn y gwanwyn. Roedd hwn yn faes lle cafodd Cwm Taf ymdrech sylweddol a chymorth cynyddol gan glinigwyr ar draws y Bwrdd Iechyd, i edrych ar sut y gallai wella'r gwasanaethau newydd-enedigol ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed ymhellach. Roedd hyn yn cael ei ystyried i ddechrau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr, gyda gwelliannau wedyn yn cael eu hymestyn i Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd Prif Weithredwr, Cwm Taf y byddai'r gwaith a oedd wedi'i wneud mewn gwasanaethau newydd-enedigol yn destun adolygiad, a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf.

Roedd rhaglen waith ar y gweill ar hyn o bryd yn yr Ysbyty Cymunedol ym Maesteg. Roedd angen gwneud gwaith ar y to, gan ei fod mewn cyflwr gwael. Roedd y gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau. Byddai gwaith ar wahoddiadau i dendro yn dechrau yn fuan ar gyfer gwaith ar welyau cleifion mewnol a materion yn ymwneud â chapasiti.

Roedd Cwm Taf wedi bod yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru am fwy o adnoddau ariannol mewn perthynas â'r uchod, oherwydd nad oedd yr amlen wreiddiol o gyllid a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith hwn bellach yn mynd i fod yn ddigonol, o ystyried y chwyddiant yn y costau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.

Byddai Cwm Taf yn diweddaru'r gymuned leol, gan gynnwys Aelodau Wardiau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a'r cynnydd yma, gan gynnwys canlyniad sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, rhannodd y Prif Weithredwr rywfaint o wybodaeth ag Aelodau am CAMHS, sef gwasanaeth y GIG sy'n asesu ac yn trin pobl ifanc ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl. Mae cymorth CAMHS yn cynnwys trin iselder,

problemau gyda bwyd a bwyta, hunan-niweidio, cam-drin, trais neu ddicter, anhwylder deubegynol, sgitsoffrenia a phryder, ymhlith anawsterau eraill.

Roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal yn bennaf yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, lle bu cynnydd sylweddol yn y galw yn ddiweddar, cyn ac ers y pandemig. Roedd yn rhaid creu meysydd twf yn awr i gefnogi'r bobl ifanc hyn a'u problemau yn well oherwydd y cynnydd hwn mewn galw, nad oedd wedi dangos unrhyw arwydd o leihau. Yn amlwg nid oedd effaith y pandemig wedi eu helpu gyda'u problemau, ond yn fwy rhagweladwy roedd wedi eu gwaethygu. Bu cynnydd amlwg, meddai'r Prif Weithredwr, mewn pobl ifanc ag anhwylderau bwyta nid yn unig o ran niferoedd, ond hefyd o ran difrifoldeb eu problemau yma. Roedd gwasanaeth arbennig bellach wedi'i sefydlu er mwyn darparu mwy o gymorth i'r categori penodol hwn o glaf.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda cholegau lleol, er mwyn ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n profi problemau fel y rhai a restrir uchod yn cael cymorth cwnsela a threfniadau diogelu drwy'r awdurdod lleol, lle'r oedd hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.

Ar safle Ysbyty Tywysog Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd canolfan Haen 4 arbenigol a oedd yn darparu cymorth i bobl ifanc â phroblemau CAMHS, gan gynnwys anhwylderau bwyta.

Diolchodd y Maer i'r cynrychiolwyr o Gwm Taf am eu cyflwyniad ac yna agorodd y llawr ar gyfer cwestiynau i'r Gwahoddedigion.

Cyfeiriodd Aelod at Ysbyty Cymunedol Maesteg a'i bryder bod oedi yno o ran symud pethau ymlaen o ran y gwaith sy'n cael ei gynnig yno. Roedd hefyd yn bryderus ynghylch y ffaith fod sïon ar led i'r perwyl bod yr ysbyty yn mynd i gael ei gau. Gofynnodd felly am ddiweddariad ar hyn.

Roedd hefyd yn ymwybodol fod cynnig i ddatblygu gwasanaeth dialysis ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gofynnodd a oedd bwriad i hwn gael ei arwain gan Feddyg Ymgynghorol neu Ymarferydd Nyrsio.

Sicrhaodd Prif Weithredwr Cwm Taf yr Aelod fod ymrwymiad i gadw Ysbyty Cymunedol Maesteg ar agor a'r ystod o wasanaethau gofal iechyd y mae'n eu darparu yno. Byddai'r rhain yn wasanaethau sy'n diwallu anghenion poblogaeth Llynfi yn ogystal ag anghenion rhai o drigolion y Fwrdeistref Sirol ehangach.

Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf fod trafodaethau ar y gweill gyda Bwrdd Iechyd Bae Abertawe a oedd yn darparu cymorth dialysis i bobl yr oedd angen hyn arnynt yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr trwy wasanaethau iechyd arbenigol. Roedd nifer o opsiynau ar y bwrdd ar hyn o bryd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol, sef Uned Dialysis oddi ar y safle ar wahân i Ysbyty Tywysoges Cymru, yn ogystal â chyfleuster Cleifion Allanol. Byddai'r Uned yn cael ei harwain gan nyrsys ond hefyd yn cael ei chefnogi gan fewnbwn dyddiol gan Feddyg Ymgynghorol, felly model cymysg yn y bôn. Gan y byddai hwn yn cael ei adeiladu gan gontractwr preifat, nid oedd unrhyw wybodaeth gadarn hyd yma ymhle y byddai hwn yn cael ei leoli yn y Fwrdeistref Sirol.

Nododd Aelod fod gwasanaeth cymorth CAMHS Tŷ Llidiard yn gyfleuster Haen 4. Gofynnodd beth oedd Haen 4 yn ei olygu.

Cadarnhaodd Prif Weithredwr, Cwm Taf mai Haen 4 oedd y lefel uchaf o gymorth i gleifion CAMHS mewn gofal a bod Tŷ Llidiard yn darparu cymorth i bobl ifanc yn Ne Cymru hyd at gyrion De-orllewin Cymru, felly roedd yn cael ei ddosbarthu fel canolfan gefnogaeth lefel uchel draws-ranbarthol.

Cadarnhaodd Aelod ei fod wedi cyfarfod yn 2019 â Chadeirydd Cwm Taf ar y pryd ynghylch y diffyg darpariaeth gofal sylfaenol yn ardal Porth y Cymoedd (oddi ar Gyffordd 36). Roedd wedi cadarnhau y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynghylch cynnig posibl i ymestyn Meddygfa Tyn-y-Coed yn Sarn, i gymryd i ystyriaeth y diffyg darpariaeth hwn ac o ystyried y ffaith bod yr ardal hon o'r Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu yn nhermau ei thwf mewn poblogaeth.

Yn wyneb y ffaith fod yr Aelod wedi cysylltu'n uniongyrchol â Chwm Taf ar y mater hwn, cadarnhaodd Prif Weithredwr Cwm Taf y byddai'n siarad â'r Cynghorydd am y mater hwn, y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd Aelod a fyddai pobl sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sy'n gaeth i'r tŷ yn cael pigiad atgyfnerthu Covid yn y cartref gan Ymarferydd Nyrsio.

Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf y byddai pawb sy'n gaeth i'w cartrefi yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu pigiad atgyfnerthu erbyn diwedd mis Rhagfyr, drwy ymweliadau cartref, naill ai gan Feddygon Teulu neu Ymarferwyr Nyrsio. Fodd bynnag, byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai a oedd mewn gwirionedd yn gaeth i'r tŷ yng ngwir ystyr y gair, oherwydd mewn rhai achosion roedd unigolion a oedd yn honni eu bod yn gaeth i'r tŷ, mewn gwirionedd, trwy gefnogaeth pobl eraill, yn gallu ymweld â'u practis meddyg teulu neu ganolfannau fel yr un yn Ravenscourt ar gyfer y pigiad atgyfnerthu.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar y pwnc pwysig hwn i ben drwy ddiolch i'r Prif Weithredwr a'i gydweithwyr am dderbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod heddiw a darparu diweddariad mor addysgiadol a chynhwysfawr ar waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ategwyd y teimladau hyn gan y Maer, cyn i'r gwesteion adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Prif Weithredwr a'r cyflwyniad a roddwyd gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

613. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL ODDI WRTH: Y CYNGHORYDD T THOMAS I'R AELOD CABINET - CYMUNEDAU

Pa ganran o ffyrdd a phriffyrdd lleol sydd heb eu mabwysiadu?

**Ymateb**

Yn seiliedig ar y cyfrifiad o gyfanswm hyd y ffyrdd heb eu mabwysiadu o gymharu â mesuriad llinellol y rhwydwaith priffyrdd yn gyffredinol, mae canran y ffyrdd heb eu mabwysiadu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai nag 1% (0.08%).
Cofiwch fod y ffigur hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn 2018 ac mae'n gyfrifiad lefel uchel iawn, fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw ei fod yn isel iawn o'i gymharu â'r rhwydwaith priffyrdd yn gyffredinol.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd T Thomas**

Mae canran fach o ffyrdd heb eu mabwysiadu yn parhau i achosi problemau penodol i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Rwy'n ymwybodol, yn ardal Pencoed o ardal Porth y Cymoedd fod yna ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ers degawdau. Felly, beth yw Strategaeth y Cyngor ar gyfer mabwysiadu'r ffyrdd hyn sydd heb eu mabwysiadu yn y tymor hir, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad yw datblygwyr safleoedd bellach yn masnachu, oherwydd eu bod efallai wedi'u diddymu neu o bosibl wedi'u dirwyn i ben am resymau eraill.

**Ymateb**

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau ei fod wedi bod yn gweithio gyda'n dau AS a'r Aelod lleol dros Fryncoch, gan edrych ar fater ffyrdd heb eu mabwysiadu, gan gynnwys yn ardaloedd Porth y Cymoedd. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn ofyniad ar ddatblygwr y safle i sicrhau bod ffyrdd yn cael eu codi i safon y gellir eu mabwysiadu, ac os yw hyn yn disgyn i ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr, yna bydd y darn o ffordd dan sylw yn dod yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cronfa Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu ac mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am ddosraniad o'r arian hwn, gan arwain at waith yn cael ei wneud ar stryd ym Mhorthcawl, i ddod â hon i safon y gellir ei mabwysiadu ac yna gael ei mabwysiadu gan y Cyngor. Yn anffodus, nid yw lefel y cyllid sydd ar gael yn mynd i allu cefnogi'n ariannol y gwaith o fabwysiadu nifer y ffyrdd heb eu mabwysiadu sydd yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol, nac yng Nghymru gyfan, felly mae'r Cyngor yn mynd i orfod ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r mater o ffyrdd heb eu mabwysiadu yn ei ardal gyffredinol. Pe bai gan Aelodau unrhyw ymholiadau ynghylch ffyrdd heb eu mabwysiadu o fewn eu Wardiau, anogodd hwy i fynd ato'n bersonol ynglŷn â'r rhain.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y  pwynt mai dim ond nifer fach o briffyrdd dosbarthedig yn y Fwrdeistref Sirol nad oeddent wedi'u codi i safon lle gellid eu mabwysiadu. Ond roedd cryn dipyn o ffyrdd heb eu mabwysiadu yn parhau. Roedd y rhain yn y prif ardaloedd nad oedd yn wynebu datblygiadau tai, ond yn fwy o lonydd ochr neu lonydd cefn ac ati, yn hytrach na phrif ffyrdd, lle nad oedd unrhyw lif sylweddol o gerbydau.  Ailadroddodd y ffaith bod gennym gyllid gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu ffyrdd heb eu mabwysiadu ac i gyflwyno'r ardaloedd hyn i'r prif rwydwaith priffyrdd ac mae treialon wedi dechrau mewn perthynas â hyn. Roedd yna achosion lle'r oedd datblygwyr safleoedd yn datblygu stadau tai o fewn gwahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol, fodd bynnag, ni allai'r ffyrdd sy'n gwasanaethu'r datblygiadau hyn gael eu cyflwyno i'w mabwysiadu hyd nes bod y datblygiadau wedi'u cwblhau'n llawn gyda'r ffyrdd sy'n eu gwasanaethu yn rhai sydd o safon lle gellid eu mabwysiadu. Roedd yn dymuno pwysleisio, fodd bynnag, fod yr ardaloedd hyn yn fach o'u cymharu â hyd cyffredinol y ffyrdd a oedd yn cysylltu pob ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'i hardaloedd ehangach, a oedd yn cael eu hystyried fel rhai y gellir eu cynnal. Nid oedd yn ganran fawr mewn cymhariaeth. Roedd yn bwysig sicrhau bod yr holl ffyrdd sy'n gwasanaethu lefel uchel o draffig yn cael eu mabwysiadu, er mwyn sicrhau llif llyfn ac effeithiol o gerbydau'n teithio ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r Cyngor hefyd yn parhau, ychwanegodd, i ddod â rhai strydoedd preswyl i safon lle gellid eu mabwysiadu, allan o ddyraniad cyllid Llywodraeth Cymru.

614. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:00